Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AM, Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

16 Tachwedd 2016

Annwyl Mr Ramsay

Roedd Argymhelliad 16 yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 'Materion ehangach sy'n deillio o'r adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr' yn argymell bod Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn darparu diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn adolygiad Marks.

Amgaeir yr ymateb terfynol a baratowyd gan Lywodraeth Cymru ac AGIC ar y cyd, sydd yn cwmpasu pob un o argymhellion adolygiad Marks. Mae rhai o'r camau gweithredol i ACIC wedi'u cyflwyno eisoes yn yr adroddiad yn ymateb i'r argymhellion i'r Pwyllgor yn fis Mehefin. Maent hefyd yn cael eu cynnwys yn yr ymateb terfynol er cyflawnder, ac wedi'u diweddaru lle y bo'n briodol.

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/ Prif Weithredwr GIG Cymru**
Grŵp **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Kate Chamberlain**
**Prif Weithredwraig**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk

Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

**Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar faterion ehangach sy’n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Ymateb Terfynol i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch Argymhelliad 16:**

| |
|---|
| Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn adolygiad Marks, gan gynnwys nodi a chyflawni unrhyw flaenoriaethau uniongyrchol a mwy syml, erbyn mis Mawrth 2016. |

Mae’r ymateb terfynol hwn wedi’i baratoi gan Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar y cyd, ac mae’n cwmpasu pob un o argymhellion adolygiad Marks. Mae rhai o’r camau gweithredol i AGIC wedi’u cyflwyno i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eisoes ond maent wedi’u cynnwys isod er cyflawnder, ac maent wedi’u diweddaru lle y bo’n briodol. Lle mae angen gwneud rhagor o waith, caiff hyn ei nodi a bydd yn cael ei ddatblygu ar wahân.

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Safonau Iechyd newydd y GIG yn cynnwys gofyniad i GIG Cymru gymryd camau a fydd yn arwain at ddarparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon a gorau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae’r Safonau Iechyd a Gofal a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015 yn pennu sail ar gyfer gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd drwy ddarparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i ganfod cryfderau a thynnu sylw at feysydd i’w gwella. |
| | Lle y bo'n briodol, dylai AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru graffu ar y cyd ar drefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth cyrff iechyd, ac yn benodol mesur i ba raddau y mae eu gweithgareddau yn cael eu llywio gan y nod o wella gwasanaethau'n barhaus ac anelu at gyflawni safonau o'r radd flaenaf. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC wedi cyflwyno proses o adrodd yn flynyddol i gyrff iechyd, sy’n dwyn ei chanfyddiadau ynghyd ac sy’n darparu adborth am drefniadau llywodraethu a sicrwydd. |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 2 | Dylai AGIC barhau i rannu gwybodaeth a chydgysylltu arolygiadau ac adolygiadau gyda Swyddfa Archwilio Cymru, Cynghorau Iechyd Cymuned a Cholegau Brenhinol Meddygol er mwyn osgoi dyblygu a gwella effaith eu gweithgareddau. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC yn gweithio’n agos i rannu gwybodaeth â Swyddfa Archwilio Cymru, Cynghorau Iechyd Cymuned, rheoleiddwyr proffesiynol eraill a’r Colegau Brenhinol Meddygol, a chydgysylltu gweithgareddau gyda hwy, drwy amryw o ddulliau, gan gynnwys<br><br>• Rhaglen Arolygu Cymru<br>• Fforwm Concordat o gyrff sy’n rhan o’r gwaith o reoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Uwchgynadleddau cyrff sy’n rhan o’r gwaith o graffu ar ofal iechyd a darparu sicrwydd yn ei gylch<br>• Cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd<br><br>Mae’r Cynghorau Iechyd Cymuned ac Academi’r Colegau Meddygol Brenhinol hefyd wedi’u cynrychioli ar Fwrdd Cynghori AGIC. |
| 3 | Dylai AGIC roi cyhoeddusrwydd i'w dull gweithredu ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn ei gweithgareddau arolygu a diogelu a hyrwyddo buddiannau pobl o gefndiroedd amrywiol a'r rhai sy'n aml yn cael eu gwthio i'r cyrion a'u heithrio'n gymdeithasol. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC eisoes yn ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol wrth ymgymryd â’i waith, a bydd yn ystyried pa bethau eraill y gall eu gwneud i roi cyhoeddusrwydd i’w dull gweithredu. Mae methodoleg arolygu AGIC yn edrych yn uniongyrchol ar y ffordd y mae pobl yn profi gwasanaethau, drwy lygaid cleifion a pherthnasau. |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | | | Mae AGIC yn blaenoriaethu gwaith, yn rhannol, ynghylch nodwedd yr unigolion sy’n cael gofal o fod yn agored i niwed, ac mae ganddi gyfrifoldebau penodol yn hyn o beth sy’n ymwneud ag iechyd meddwl. Mae AGIC hefyd yn aelod o’r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol, sy’n cynnwys 20 o gyrff sy’n monitro mannau cadw ledled yr Alban, Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae’r rhain yn cynnwys dalfeydd yr heddlu, carchardai, dalfeydd llysoedd, mannau cadw ym meysydd mewnfudo a’r lluoedd arfog, cartrefi plant diogel, a mannau lle y caiff pobl eu cadw o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl.<br><br>Mae Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu AGIC hefyd yn aelod o Fwrdd Cynghori Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. |
| 4 | Gall AGIC wneud cyfraniad sylweddol at ddiogelwch a gofal cleifion drwy ddwyn Byrddau i gyfrif am berfformiad clinigol meddygon drwy'r broses ailddilysu meddygol.<br><br>Felly, dylai roi blaenoriaeth uchel i weithio gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i sicrhau bod arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu Byrddau Iechyd mewn perthynas â Rheoliadau Swyddog Cyfrifol yn effeithiol. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC yn gweithio’n agos gyda’r Cyngor Meddygol Cyffredinol, drwy’r Fforwm Concordat, Fforwm Cynghori Cymru y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a chyfarfodydd dwyochrog rheolaidd.<br><br>Mae AGIC hefyd yn gweithio gydag Uned Gymorth Ailddilysu Deoniaeth Cymru yn ei |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | | | gwaith o oruchwylio datblygiad y broses ailddilysu.<br><br>Mae’r graddau y mae ailddilysu’n cael ei weithredu’n gywir yn ystyriaeth bwysig yn asesiad AGIC o brosesau llywodraethu a sicrwydd sefydliad. |
| 5 | Dylai AGIC a Llywodraeth Cymru ymchwilio i ba mor ddefnyddiol yw’r offer archwilio a ddatblygwyd gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr ac ystyried a ddylid eu cynnwys yn y Safonau Iechyd newydd sy'n cael eu datblygu; ac a allent gyfrannu at raglenni arolygu AGIC. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Lle mae hynny’n bosibl, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori dulliau archwilio o nifer o ffynonellau yn y canllawiau ategol ar y Safonau Iechyd a Gofal.<br><br>Wrth ddatblygu’r fethodoleg ar gyfer arolygiadau, mae AGIC yn defnyddio’r arferion proffesiynol sefydledig gorau o amryw o ffynonellau a byddai’r rhain yn cynnwys y dulliau a’r rhestrau gwirio hynny a ddatblygwyd gan y Colegau Brenhinol. Caiff cynrychiolwyr y Colegau Brenhinol eu gwahodd i fod yn rhan o Grwpiau Cyfeirio Rhanddeiliaid AGIC pan fydd methodolegau newydd yn cael eu datblygu, ac mae Academi’r Colegau Meddygol Brenhinol wedi’i chynrychioli ar Fwrdd Cynghori AGIC. |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 6 | Dylai AGIC ddatblygu rhaglen arolygu gymesur yn seiliedig ar risg wedi'i llywio gan y wybodaeth y mae'n ei chasglu a dadansoddiad o'r wybodaeth honno. Dylai'r rhaglen arolygu gynnwys: | | Mae’r dull gweithredu hwn eisoes ar waith. |
| | (i) Cydweithio’n agosach â Chynghorau Iechyd Cymuned a fydd yn hanfodol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o wybodaeth a chudd-wybodaeth ar lefel wardiau unigol neu leoliadau eraill. | Derbyniwyd | (i) Mae gan AGIC Brotocol Gweithredu cytunedig â’r Cynghorau Iechyd Cymuned, a chyfnewidiwyd hwn yn ffurfiol ym mis Mawrth 2015. Mae adolygiad o hyn yn mynd rhagddo. |
| | (ii) Dysgu gwersi arfer da o ddefnydd Llywodraeth Cymru o ymweliadau dirybudd â nifer sylweddol o wardiau ysbyty lle yr aseswyd diogelwch ac ansawdd y gofal a defnyddio'r rhain i lywio eu datblygiad o arolygiadau byr o Urddas a Gofal Hanfodol. Byddai hyn yn caniatáu i nifer fwy o arolygiadau gael eu cynnal. | Derbyniwyd | (ii) Bu AGIC yn cysylltu’n agos â’r rhaglen gwiriadau dirybudd wreiddiol ac erbyn hyn mae nifer o’r adolygwyr wedi ymuno â phanel adolygwyr allanol AGIC. Mae AGIC wedi adolygu’r defnydd o ymweliadau ffurf fer i ystyried sut y gall adeiladu ar y rhain er mwyn cyflwyno’r trefniadau cadarn angenrheidiol ar gyfer casglu tystiolaeth ac adrodd sy’n sail i raglen arolygu ffurfiol. |
| | (iii) Parhau â'i dull gweithredu newydd ar lanweithdra a rheoli heintiau i atal heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Dylai barhau i fod yn brif flaenoriaeth ac ni ddylai materion yn ymwneud â chapasiti beryglu ei gallu i gyflawni'r agwedd hon ar ei gwaith. | Derbyniwyd | (iii) Bu grŵp gorchwyl a gorffen arbenigol yn gweithio gydag AGIC i ddatblygu dull tair blynedd i helpu i gyflwyno’r canllawiau newydd ar Atal a Rheoli Heintiau a rhoi sicrwydd ynglŷn â’u gweithredu |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | (iv) Dod o hyd i adnoddau i gynyddu nifer yr arolygiadau y mae'n eu cynnal o feddygfeydd. | Derbyniwyd, yn amodol ar flaenoriaethau eraill | (iv) Mae AGIC yn gyfrifol am weithredu y tu mewn i'r gyllideb y mae Llywodraeth Cymru yn ei dyrannu iddi. Mae angen i AGIC ystyried nifer yr arolygiadau meddygon teulu a gynhelir pan fydd yn blaenoriaethu'r ffordd y defnyddir y gyllideb hon a'r effaith ar weithgareddau arolygu mewn mannau eraill. |
| 7 | Dylai AGIC ffurfioli ei chytundebau gyda'r cyrff canlynol:<br><br>(i) Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, sef prif reolydd y proffesiwn fferylliaeth yng Nghymru; ac adrodd ar effeithiolrwydd rheoleiddio fferylliaeth ledled Cymru yn ei Hadroddiad Blynyddol.<br><br>(ii) Y Cyngor Optegol Cyffredinol, sef prif reolydd y proffesiwn optegol yng Nghymru; ac adrodd ar effeithiolrwydd rheoleiddio optegol ledled Cymru yn ei Hadroddiad Blynyddol. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae hyn naill ai wedi'i fabwysiadu neu'n mynd rhagddo.<br><br>(i) Mae AGIC wedi cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.<br><br>(ii) Mae AGIC yn ymgymryd ag adolygiad thematig o Offthalmoleg. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn rhan o'r grŵp rhanddeiliaid ar gyfer yr adolygiad hwn a bydd hyn yn cynnig cyfle i ganfod a oes angen Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol. |
| 8 | Dylai AGIC ehangu adolygiadau gan gymheiriaid, adolygiadau thematig ac adolygiadau arbennig gan y gallant wella ansawdd y gofal i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau | Derbyniwyd a gweithredwyd gan mwyaf | Nid rôl barhaus AGIC yw goruchwylio'r broses o adolygu gan gymheiriaid gan mai mater i'r GIG yng Nghymru ei ddwyn ymlaen |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | ledled Cymru. Dylai adolygiadau thematig ac adolygiadau arbennig yn benodol gael eu datblygu ymhellach gan y gallant nodi atebion i broblemau mewn un gwasanaeth neu ardal y gall y sector cyfan fanteisio arnynt. Ar yr un pryd ni ddylai'r gwaith rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd gael ei beryglu. | | yw hwn. I gynorthwyo yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Llywio Adolygiad gan Gymheiriaid Cymru Gyfan er mwyn gwreiddio'r broses o gynnal adolygiadau gan gymheiriaid ar draws pob gwasanaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru.<br><br>Ers 2015-16, mae AGIC wedi cyflwyno'r drefn o ddefnyddio adolygiadau thematig a bydd yn parhau i gynnal ymchwiliadau arbennig pan fydd materion sy'n peri pryder. |
| 9 | Dylai Llywodraeth Cymru:<br><br>• Ddatblygu rheoliadau gofal iechyd yn unol ag egwyddorion y Papur Gwyn ar reoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dylai rheoleiddio a chofrestru darparwyr gofal iechyd annibynnol symud i fodel cofrestru sy'n seiliedig ar wasanaeth, yn hytrach na chofrestru safleoedd unigol. Byddai hyn yn ddiwygiad synhwyrol ac yn creu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y darparwyr ac AGIC yn ogystal â chynyddu cysondeb rhwng y sectorau iechyd a gofal.<br>• Sicrhau mai dim ond un set o safonau iechyd sy'n berthnasol ar draws sector y GIG a'r sector annibynnol. Dylai AGIC weithio gyda GIG Cymru, y sector annibynnol a Llywodraeth Cymru a phob corff perthnasol arall i | Yn cael ei ystyried | Mae'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol, yn cael eu harchwilio yn sgil y Papur Gwyrdd 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd'. |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | ddatblygu set ystyrlon o safonau sy'n cysylltu â safonau gofal cymdeithasol. | | |
| 10 | Mewn perthynas â gwaith mewn lleoliadau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu dylai AGIC:<br><br>• Gynyddu nifer yr arolygiadau o gyfleusterau cleifion mewnol y GIG i warchod buddiannau cleifion sydd â phroblem iechyd meddwl neu anabledd dysgu yn well.<br>• Sicrhau bod ei model arolygu yn canolbwyntio mwy ar werthuso canlyniadau i gleifion a llai ar graffu ar a yw prosesau priodol wedi eu dilyn. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC yn parhau i sicrhau ei bod yn cynnal arolygiadau o gyfleusterau'r GIG i gleifion mewnol.<br><br>Yn ychwanegol at raglen graidd AGIC, mae wedi cynnal adolygiad thematig gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ynghylch Anableddau Dysgu.<br><br>Lle y bo'n briodol, mae AGIC yn defnyddio'i hymweliadau Deddf Iechyd Meddwl arunig i ddarparu gwybodaeth ddiagnostig fel y gall dargedu arolygiadau llawn yn fwy effeithiol.<br><br>Mae dull arolygu, ymweld ac adolygu AGIC yn canolbwyntio eisoes ar archwilio ansawdd profiad y claf. Er bod AGIC hefyd yn edrych ar faterion prosesu penodol (yn arbennig yng nghyswllt a yw gofynion cyfreithiol wedi'u cyflawni), gwneir hyn yng nghyd-destun y gofal a gafwyd. |
| 11 | Dylai Llywodraeth Cymru ddileu cyfrifoldeb AGIC dros y swyddogaethau canlynol: | | |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | (i) Goruchwylio bydwragedd a dylid trosglwyddo'r swyddogaeth hon i sefydliad lletyol arall ar fyrder<br><br>(ii) Cynnal adolygiadau o achosion o ddynladdiad lle mae dynladdiadau wedi cael eu cyflawni gan ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl. Nid yw arolygiaethau gofal iechyd eraill yn y DU yn cyflawni'r swyddogaeth hon. Cydnabyddir bod angen arbenigedd clinigol, felly comisiynir adroddiadau gan gyrff BILl cyfatebol. Os bydd y trefniadau comisiynu presennol yn parhau, yna dylai Llywodraeth Cymru ystyried y goblygiadau o ran adnoddau.<br><br>(iii) Cyfrannu at ymchwilio i farwolaethau mewn carchardai yng Nghymru. Oherwydd eu natur, mae'r ymchwiliadau hyn yn cymryd cryn amser, maent yn aml yn gofyn am arbenigedd clinigol ac weithiau mae'r adnoddau sydd angen eu dyrannu iddynt yn golygu bod AGIC wedi gorfod lleihau gweithgareddau arolygu pwysig. Gallai'r Ombwdsmon Carchardai'r Gwasanaeth Prawf gael cyngor clinigol arbenigol gan Fyrddau Iechyd Lleol. | Gwrthodwyd<br><br>Gwrthodwyd<br><br>Gwrthodwyd | (i) Disgwylir i oruchwyliaeth statudol ar fydwragedd gael ei dileu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn y dyfodol agos ac nid oes dim mantais yn gysylltiedig â throsglwyddo'r swyddogaeth yn y cyfamser;<br><br>(ii) Yn gyffredinol, credir y dylai swyddogaeth adolygu achosion o ddynladdiad aros yn AGIC gan ei bod yn darparu gwybodaeth a gwersi gwerthfawr ynghyd â chudd-wybodaeth ehangach am ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl;<br><br>(iii) Drwy adolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa y bydd AGIC yn cyflawni ei chyfrifoldeb am roi darpariaeth gofal iechyd byrddau iechyd i garcharorion ar brawf. O ganlyniad, dylai'r swyddogaeth hon aros yn AGIC. |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | (iv) Asesu asiantaethau nyrsys. Er na fydd hyn yn cael llawer o effaith ar gapasiti AGIC bydd yn helpu i ddileu'r dyblygu â gwaith AGGCC. | Derbyniwyd | (iv) AGGCC sy'n gyfrifol am asesu asiantaethau nyrsys. |
| 12 | Dylai AGIC ddiwygio ei Datganiad o Ddiben i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar gleifion a dinasyddion. Dylai'r cyhoedd ddeall yn glir mai ei rôl yw sicrhau eu bod yn cael y driniaeth a'r gofal o'r ansawdd gorau, yn ogystal â'u hamddiffyn rhag niwed. Hefyd, efallai y bydd y Datganiad o Ddiben am roi mwy o bwyslais ar rôl yr Arolygiaeth o ran hyrwyddo gwelliannau ac arloesedd mewn gofal iechyd ledled Cymru, ac y gallai fod yn llawer mwy nag arolygydd gwasanaethau unigol. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae gan AGIC ddatganiad clir ynghylch ei diben, ei gwerthoedd a'r canlyniadau y mae'n ceisio'u cyflawni, sydd bellach wedi'i gynnwys ym mhob un o'i gynlluniau cyhoeddedig. Mae hyn wedi'i egluro ymhellach drwy lansiad gwefan newydd AGIC. |
| 13 | Fel rhan o'r cynigion ar gyfer y Papur Gwyrdd, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ar y canlynol:<br><br>• Rhoi ystod lawn o bwerau gorfodi i AGIC, gan gynnwys rhoi darparwr gofal iechyd y GIG dan fesurau arbennig heb droi at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyn yn helpu i wella annibyniaeth AGIC a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ei bod yn rheoleiddiwr ac | Yn cael ei ystyried | Mae'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol, yn cael eu harchwilio yn sgil y Papur Gwyrdd 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd'. |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | yn arolygydd cryf a diduedd.<br>• Yr ystod o opsiynau a fyddai'n gwneud AGIC yn arolygiaeth fwy annibynnol, gan edrych ar fodelau eraill gan gynnwys Estyn, yn ogystal ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>Ar yr un pryd, byddai'n synhwyrol ystyried y posibilrwydd o uno gydag AGGCC wrth ymchwilio i'r opsiynau hyn. Gellid ymgynghori â'r cyhoedd ar bob un o'r materion hyn gan gynnwys ystyried manteision ac anfanteision creu un rheoleiddiwr gyda chyfrifoldeb dros iechyd a gofal cymdeithasol. | | |
| 14 | Dylai AGIC ddatblygu ymhellach a chyhoeddi Strategaeth Gyfathrebu, a fydd yn ei galluogi i gyfathrebu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd. Bydd yn gallu darparu tystiolaeth ei bod yn darparu gwasanaeth gwerthfawr iawn ar eu rhan. Bydd mwy o ryngweithio â chleifion a defnyddwyr gwasanaethau drwy ffurfiau aml-gyfrwng yn darparu gwybodaeth werthfawr i gefnogi arolygiadau o wasanaethau wedi'u harwain gan dargedau lle y codir pryderon. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC wedi adnewyddu ei strategaeth gyfathrebu gan arwain at fwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â defnydd mwy rhyngweithiol ohonynt. Mae gwefan newydd wedi'i lansio. |
| 15 | Dylai AGIC gynnwys mwy o wybodaeth yn ei Hadroddiad Blynyddol ar allbynnau ac effeithlonrwydd prosesau gwaith sy'n gwasanaethu cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill. Dylid lleihau nifer y mesurau gofal cwsmeriaid er mwyn caniatáu i adnoddau prin gael eu | Derbyniwyd a gweithredwyd | Bellach mae adroddiadau blynyddol AGIC yn canolbwyntio ar themâu a chanfyddiadau o'i gwaith.<br>Nid yw AGIC yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn unig; mae hefyd yn rhoi |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | defnyddio i werthuso canlyniadau arwyddocaol. | | cyhoeddusrwydd i ddadansoddiad thematig o raglenni gwaith penodol ar sail gyfnodol. Mae AGIC yn adrodd yn agored ar ei thargedau perfformiad, gan gynnwys maint a phrydlondeb. |
| 16 | Dylai AGIC werthuso effeithiolrwydd ei modelau arolygu ac adolygu er mwyn ei helpu i wella ansawdd y gweithgareddau arolygu, yn ogystal â meithrin gwell dealltwriaeth o berfformiad darparwyr gofal iechyd. Dylai darparwyr gael y cyfle i roi adborth ar a yw'r ffordd y mae AGIC yn craffu ar eu gwasanaeth yn ddefnyddiol, ac i ba raddau y mae'n eu helpu i nodi'r agweddau hynny sydd angen eu gwella. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC yn cynnal gwerthusiadau o'i gweithgareddau pan fydd hynny'n briodol. Er enghraifft, bu'n gwerthuso:<br><br>• y model newydd ar gyfer goruchwylio bydwragedd<br>• gwersi a themâu o adolygiadau dynladdiad<br>• ei dulliau o ymdrin ag arolygiadau urddas a gofal hanfodol ac adolygiadau iechyd meddwl.<br>• ei dull o ymdrin ag arolygiadau meddygon teulu<br>• y defnydd o grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid i gynghori a herio ar gyfer meysydd gwaith newydd a/neu arwyddocaol e.e. Arolygiadau Deintyddol, Arolygiadau Meddygon Teulu, gweithgareddau Iechyd Meddwl<br>• arolwg rhanddeiliaid sylfaenol yn gynnar yn 2014/15. |
| 17 | Dylai AGIC fesur canlyniadau ei meysydd arolygu pwysicaf: gan ddangos sut mae ei harolygiadau wedi cael effaith | Derbyniwyd o ran egwyddor | Mae'n anodd priodoli achos ac effaith a bu hynny hefyd yn destun adolygiad rhyngwladol |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | sylweddol ar ddiogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd drwy helpu darparwyr i wella eu perfformiad. | | heb lawer o lwyddiant, fel yr adroddwyd drwy’r Bartneriaeth Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwylio.<br><br>Fodd bynnag, mae AGIC yn parhau i ddefnyddio’r hyn a ddysgwyd gan werthusiadau fel y rhai a nodir uchod i ddatblygu’r ffordd y gall ei gwaith helpu i gefnogi gwelliant. |
| 18 | Mae Comisiwn Williams yn argymell, os nodir safon arfer da dylai pob corff iechyd perthnasol ledled Cymru gyfan ei mabwysiadu i ddod ag amrywiadau diangen mewn ansawdd gwasanaethau i ben. Byddai'n rhaid cyfiawnhau unrhyw wyro oddi wrth yr egwyddor hon. Felly, byddai'n fuddiol iawn cynnwys y gofyniad hwn yn y Safonau Iechyd diwygiedig ac iddo ddod yn rhan o gyfundrefn reoleiddio AGIC. | Derbyniwyd o ran egwyddor | Mae’r safonau Iechyd a Gofal yn sicrhau bod yr arferion gorau’n cael eu dilyn ac maent yn ceisio lleihau amrywiadau. Mae AGIC yn asesu sefydliadau yn ôl y safonau hyn. Yn ychwanegol at hynny, mae proses reolaidd o rannu’r arferion gorau yn sail i nifer o raglenni gwella GIG Cymru, gan gynnwys y rhai a weithredir gan 1000 o Fywydau – Gwasanaeth Gwella. |
| 19 | Dylai AGIC, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, gyhoeddi Datganiad o Risg yn amlinellu ei dull rheoleiddio ac arolygu. Dylai esbonio pa mor aml y cynhelir arolygiadau ac adolygiadau o gyrff y GIG a chyrff y sector annibynnol a rhoi hyn yng nghyd-destun ei chapasiti i gyrraedd y targedau hyn. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC eisoes yn nodi, mewn cynlluniau cyhoeddedig, sut y mae’n blaenoriaethu ei gwaith. |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 20 | Dylai Llywodraeth Cymru:<br><br>(i) Ystyried rhinweddau datblygu dyletswydd gyfreithiol i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn rhaglenni llywodraethu a chraffu AGIC. Byddant yn cael dweud eu barn ar gynllunio, gweithredu a monitro ei gweithgareddau rheoleiddio. Gall gwrando'n uniongyrchol ar leisiau cleifion a gofalwyr helpu i adnabod gofal sy'n cyfrannu at iechyd a lles da yn ogystal â gofal anniogel ac annerbyniol. Byddai'n ofynnol i AGIC adrodd i Weinidogion Cymru ar gyfranogiad dinasyddion, gan gynnwys plant a phobl ifanc, wrth wneud penderfyniadau ac yn ei gweithrediadau strategol. | Gwrthodwyd | (i) Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn fod angen cyflwyno dyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod AGIC yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau. Mae AGIC eisoes yn defnyddio amryw o ddulliau i sicrhau bod profiad y claf yn cael ei ystyried, gan gynnwys cael adolygwyr lleyg yn rhan o dimau arolygu, cynnwys cleifion yn y broses o ddatblygu methodolegau arolygu, a chynnwys Cynghorau Iechyd Cymuned mewn adolygiadau thematig. |
| | (ii) Adlewyrchu egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, cyfranogiad cleifion a gwell canlyniadau i gleifion yn y Safonau Iechyd diwygiedig sydd wrthi'n cael eu datblygu a sicrhau eu bod yn rhan o gyfundrefn reoleiddio ac arolygu AGIC. Rôl AGIC fyddai craffu ar a yw corff iechyd yn cyflawni canlyniadau i gleifion y maent yn credu eu bod yn bwysig i'w hiechyd a'u lles. | Derbyniwyd a gweithredwyd | (ii) Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn arddel egwyddorion cyd-gynhyrchu a gofal iechyd darbodus. |
| 21 | Dylai AGIC adolygu gweithrediad ac effeithiolrwydd strategaethau defnyddwyr gwasanaethau BILl ac | Derbyniwyd o ran egwyddor | Gallai hyn gael ei ystyried yn adolygiad thematig posibl, ond byddai angen ei |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | Ymddiriedolaethau, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, A Framework for Assuring Services User Experience, i benderfynu a ydynt yn cynnwys cleifion a gofalwyr fel modd o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau. | | flaenoriaethu ochr yn ochr â chynigion eraill. Mae adolygiadau AGIC yn ystyried profiad y claf a'r graddau y mae'r claf yn ymwneud â'i ofal ei hun fel mater o drefn. |
| 22 | Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar BILl, Ymddiriedolaethau a Chynghorau Iechyd Cymuned i rannu gwybodaeth am gwynion gydag AGIC fel mater o drefn. Bydd hyn yn gwella gallu AGIC i gyflawni ei chyfrifoldeb i sicrhau ansawdd perfformiad cyrff iechyd mewn perthynas ag ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn unol â Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well - Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru; ac i sylwi ar fethiant difrifol a systemig mewn gofal iechyd yn gynnar. | Gwrthodwyd | Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn fod angen dyletswydd gyfreithiol i rannu gwybodaeth am gwynion fel mater o drefn. Mae AGIC yn gallu gofyn i sefydliadau am y wybodaeth hon os yw'n ofynnol arni; fodd bynnag, rydym eisoes yn disgwyl i sefydliadau gyflwyno'r wybodaeth hon yn agored ym mhwyllgorau Ansawdd a Diogelwch y Byrddau a chyhoeddi'r papurau. Mae gwaith yn mynd rhagddo eisoes ar ddatblygu set ddata Cymru gyfan ynghylch cwynion, a fydd yn ei gwneud yn rhwydd rhannu gwybodaeth. |
| 23 | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu rheoliadau llymach a mwy cadarn i gryfhau'r safonau gofal diwygiedig, sy'n berthnasol i bob darparwr gofal iechyd yn sector y GIG a'r sector annibynnol.<br><br>Byddai AGIC yn craffu ar weithredu'r Safonau a dylid rhoi ystyriaeth i gynyddu ei phwerau gorfodi lle ceir achosion o dorri'r Safonau. | Yn cael ei ystyried | Mae'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol, yn cael eu harchwilio yn sgil y Papur Gwyrdd 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd'. |
| 24 | Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Dyletswydd Gonestrwydd benodol yn y Safonau Iechyd diwygiedig er mwyn i AGIC allu | Yn cael ei ystyried | Mae'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol, yn cael eu |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | asesu i ba raddau y mae darparwyr gwasanaethau yn agored ac yn onest am eu camgymeriadau, pam maent wedi digwydd, a'r hyn y maent wedi ei wneud i unioni pethau. Bydd AGIC hefyd yn asesu a oes gan Fyrddau Iechyd Lleol drefniadau llywodraethu da: bod gwybodaeth nid yn unig yn cael ei rhannu â chleifion, ond hefyd gydag AGIC cyn gynted â phosibl a bod gwasanaethau mwy diogel yn cael eu darparu o ganlyniad i ddysgu o gamgymeriadau. | | harchwilio yn sgil y Papur Gwyrdd ‘Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd’. |
| 25 | Dylai AGIC gymryd camau gweithredu dilynol bob amser pan fydd canlyniadau'r adolygiad yn dangos bod hyn yn angenrheidiol ac yn yr achosion mwyaf difrifol o fethiant gwasanaeth, dylai fod yn fwy cadarn wrth ddefnyddio ei phwerau gorfodi, a chyhoeddi data ar y ffordd y mae wedi defnyddio'r pwerau hyn yn ei Hadroddiad Blynyddol. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae gan AGIC ddull strategol o ymdrin â chamau gweithredu dilynol, gan gynnwys cynnal ymweliadau dilynol. Mae hyn wedi’i nodi yng Nghynllun Gweithredol 2016/17. Mae proses newydd ar gyfer rheoli gwasanaethau sy’n peri pryder wedi’i gweithredu. Mae trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd tri pharti ar waith ar gyfer y GIG. |
| 26 | Dylai Llywodraeth Cymru:<br><br>• Ddatblygu rheoliadau i ganiatáu i AGIC erlyn achosion lle mae staff gofal iechyd proffesiynol yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.<br>• Datblygu rheoliadau sy'n gorfodi cofrestru sy'n gyfyngedig o ran amser ar wasanaethau sydd wedi methu â chydymffurfio â rheoliadau a safonau. Byddai hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar ddarparwyr i wella eu perfformiad. | Yn cael ei ystyried | Mae’r materion hyn, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol, yn cael eu harchwilio yn sgil y Papur Gwyrdd ‘Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd’. |
| 27 | Dylai AGIC ystyried gwerth datblygu fframwaith ar gyfer asesu ansawdd a diogelwch yr holl wasanaethau gofal | Derbyniwyd o ran egwyddor | Mae hwn yn ddarn sylweddol o waith ac mae angen ystyried hyn ymhellach yn sgil |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | iechyd. Gallai'r fframwaith adlewyrchu canlyniadau arwyddocaol i gleifion, a gellid eu cysoni â'r Safonau Iechyd diwygiedig, y systemau hunansicrwydd y mae cyrff iechyd yn eu defnyddio i fesur eu perfformiad eu hunain a'r dangosyddion clinigol a ddefnyddir gan reoleiddwyr proffesiynol a Cholegau Brenhinol. Dylai'r fframwaith fod yn gyffredin i waith AGIC ac AGGCC gan fod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn cael eu darparu'n gynyddol i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Byddai gwybodaeth glir yn cael ei darparu i'r cyhoedd a byddai adroddiadau arolygu a chanlyniadau arolygiadau yn annog gwelliant ac arloesedd gan ddarparwyr. | | newidiadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau a'u cyfeiriad, fel datblygu gwasanaethau integredig. Rydym yn parhau i ddysgu sut y mae cyrff eraill yn datblygu eu fframweithiau dyfarnu. |
| 28 | Dylai AGIC graffu ar:<br><br>• A yw cyrff iechyd yn darparu'r triniaethau clinigol mwyaf effeithiol i gleifion. Yn ogystal â'r dymuniad i elwa ar dderbyn gofal yn unol â gofal hanfodol sy'n cynnal bywyd, megis cael eu bwydo, eu hydradu a chael cymorth i fynd i'r toiled yn ôl yr angen, mae cleifion hefyd yn awyddus i gael y triniaethau clinigol gorau sydd ar gael.<br>• A yw gwersi sy'n cael eu hyrwyddo gan raglen Gwella Ansawdd 1000 o Fywydau yn cael eu cyflawni yn ystod yn ystod arolygiadau neu adolygiadau unigol; neu gallent fod yn destun adolygiadau thematig cenedlaethol. | Gwrthodwyd | Mae AGIC yn cynnal profion i weld a yw gofal a thriniaeth yn cael eu darparu yn ôl y safonau cyhoeddedig. Nid gwaith AGIC yw rhoi effeithiolrwydd triniaethau clinigol ar brawf. Mater i gyrff eraill, fel NICE, yw hwnnw.<br><br>Wrth gynnal adolygiadau thematig, mae AGIC yn defnyddio'r arferion gorau o nifer o ffynonellau gan gynnwys 1000 o Fywydau – Gwasanaeth Gwella. |
| 29 | Nid yw'r trefniadau gwirfoddol sy'n sail i waith Arolygu Cymru wedi cefnogi a chydgysylltu rhaglenni gwaith rhwng y 4 corff | Gwrthodwyd | Mae'r gwaith hwn wedi symud ymlaen gryn dipyn erbyn hyn yn dilyn cyhoeddi Papur |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | archwilio, arolygu a rheoleiddio ac ar adegau gall hyn roi cleifion a defnyddwyr gwasanaethau mewn perygl oherwydd na fydd adolygiad yn cael ei gynnal.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i sut y gellid cryfhau cydweithio drwy adolygu trefniadau cydweithredu presennol a sut y gellid eu diwygio drwy greu dyletswydd statudol. Yn benodol gall model Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n cefnogi cydweithio rhwng y cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio wrth adolygu perfformiad awdurdodau lleol fod yn berthnasol i'r sector iechyd. | | Cylch Gwaith a Chanllawiau Rhannu Gwybodaeth gan Arolygu Cymru. Mae AGIC ac AGGCC wedi cydweithio ar adolygiad o wasanaethau i bobl sydd ag anableddau dysgu.<br><br>Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn gweld bod angen dyletswyddau statudol pellach o ran cydweithredu. |
| 30 | Mae'r system wybodaeth ar y cyd yn cynnwys Concordat Cymru, Uwchgynadleddau Gofal Iechyd a Threfniadau Dwysáu GIG Cymru a gall fod lle i egluro sut y maent yn ategu ei gilydd yn ogystal ag asesu a oes unrhyw orgyffwrdd a dyblygu ymdrechion. Dylai AGIC, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill ystyried a yw'r system wybodaeth gyfredol mor syml ac effeithlon ag y gallai fod. Hefyd, bydd yn ddefnyddiol yn y dyfodol pwyso a mesur a gwerthuso llwyddiant y system rhannu gwybodaeth a phenderfynu a oes angen unrhyw newidiadau. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae trefniadau concordat wedi'u hadnewyddu ac mae arferion gwaith wedi'u cryfhau. Mae Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru, sy'n cynnwys y trefniadau ar y cyd sydd ar waith rhwng Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac AGIC, yn peri bod modd rhannu cudd-wybodaeth yn effeithiol a gweithredu'n gydgysylltiedig. |
| 31 | Dylai'r system rhybudd cynnar gydweithredol ddod yn egwyddor drefnu ganolog i waith Concordat Cymru. Rhaid iddi gael statws a phroffil uchel ymysg yr holl aelodau a dylid cyhoeddi ei nodau a'i dulliau o weithio ar draws y sector | Gwrthodwyd | Dyma ddiben Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru. |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | iechyd a gofal cymdeithasol gyfan. | | |
| 32 | Dylai AGIC werthuso effeithiolrwydd y system rhybudd cynnar a chynnwys hyn yn ei Hadroddiad Blynyddol**.** | Gwrthodwyd | Mae AGIC yn rhan o Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru ac felly ni fyddai'n briodol iddi gynnal gwerthusiad o'i heffeithiolrwydd. |
| 33 | Dylai AGIC gynyddu ei chydweithrediad â sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynnig cyngor ac eiriolaeth i gleifion a gofalwyr i gasglu rhagor o wybodaeth am unrhyw bryderon sydd ganddynt am ansawdd gwasanaethau gofal iechyd e.e., Gofalwyr Cymru, MIND Cymru a Chyngor ar Bopeth Cymru. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC yn parhau i gysylltu a rhwydweithio â'r trydydd sector er mwyn cadw'n gyfarwydd â gwybodaeth unigryw cymdeithasau arbennig a grwpiau buddiant fel yr RNIB ac AHL. Wrth gynnal adolygiadau thematig a/neu arbenigol, mae AGIC yn cynnwys y trydydd sector yng ngrwpiau cynghori/llywio ei hadolygiad. |
| 34 | Dylai AGIC a Chynghorau Iechyd Cymuned gynnal digwyddiadau gwrando mewn cymunedau lleol yn ogystal â chynnwys arbenigwyr yn eu timau arolygu pan gynhelir adolygiad manwl o ysbyty neu BILl penodol. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae gan AGIC berthynas waith agosach â'r Cynghorau Iechyd Cymuned ers arwyddo'r Protocol Gweithredu. Mae hyn yn cynnwys AGIC yn dibynnu ar y wybodaeth a gasglwyd gan Gynghorau Iechyd Cymuned o ffynonellau gwahanol. Defnyddir adolygwyr lleyg yn arolygiadau AGIC i sicrhau bod safbwynt y claf yn cael ei gofnodi.<br>Mae AGIC yn dal i ymchwilio i'r syniad o gynnal digwyddiadau gwrando a bydd yn trafod hyn ymhellach â Chynghorau Iechyd Cymuned pan fyddant wedi gallu gwneud |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | | | rhagor o gynnydd yn y gwaith o ddatblygu eu strategaeth, cynlluniau a safonau corfforaethol. |
| 35 | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio gwaith y Cynghorau Iechyd Cymuned yn y ffyrdd canlynol:<br><br>• Rhaid i Gynghorau Iechyd Cymuned flaenoriaethu eu gwasanaeth cyngor ac eiriolaeth i gleifion a lleihau amseroedd aros.<br>• Dylai cylch gwaith Cynghorau Iechyd Cymuned ymestyn eu rôl cynghori ac eiriolaeth i ddarparu cymorth di-dor i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.<br>• Dylai fod dyletswydd statudol ar Gynghorau Iechyd Cymuned ac AGIC i rannu gwybodaeth am gwynion a chudd-wybodaeth arall â'i gilydd.<br>• Yn y dyfodol dylai aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned gyflawni elfen leyg arolygiadau AGIC. | Yn cael ei ystyried | Mae'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol, yn cael eu harchwilio yn sgil y Papur Gwyrdd 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd'.<br><br>Fel y soniwyd uchod, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen dyletswydd gyfreithiol i rannu gwybodaeth am gwynion fel mater o drefn. Mae gwaith yn mynd rhagddo eisoes ar ddatblygu set ddata Cymru gyfan ynghylch cwynion, a fydd yn ei gwneud yn rhwydd rhannu gwybodaeth. |
| 36 | Dylai AGIC gynnal rhagor o adolygiadau thematig cenedlaethol o wasanaethau gofal iechyd. Dylai pob darparwr ledled Cymru fod yn dilyn safonau meincnodi rhyngwladol gofal da a rôl AGIC fyddai craffu ar a yw pob corff iechyd yn eu rhoi ar waith; ac a ydynt yn hunanasesu eu perfformiad yn barhaus er mwyn codi safonau gofal. Byddai'n profi a yw'r hunanasesiadau o berfformiad yn ddilys ai peidio a thrwy weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyrff arbenigol | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC wedi gweithredu rhaglen o adolygiadau thematig cenedlaethol. Mae'r rhain wedi'u nodi yng Nghynlluniau Strategol a Gweithredol AGIC. |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | eraill, bydd yn nodi gwersi gan ddarparwyr hynod lwyddiannus a allai fod o fudd i bob claf a defnyddiwr gwasanaeth os cânt eu gweithredu ledled Cymru. | | |
| 37 | Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys gwerthusiad o ddiwylliant cyrff iechyd yn y Safonau diwygiedig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru. Byddai hyn yn gofyn am asesiad o drefniadau llywodraethu ac arwain Byrddau ac yn caniatáu i AGIC ystyried a yw Byrddau yn grymuso ac yn cefnogi staff i ddarparu gofal o safon ragorol. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd eisoes yn rhan o'r Safonau Iechyd a Gofal. Mae AGIC yn ystyried sut y caiff gwasanaethau eu rheoli a'u harwain ac a yw diwylliant y sefydliad a'r gweithle yn cefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. |
| 38 | Lle y bo'n briodol, dylai AGIC roi blaenoriaeth i gynnal adolygiadau ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a pherfformiad BILl ac Ymddiriedolaethau; ac ystyried gofyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gynnig ei arbenigedd. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru i gydlynu ei gwaith asesu corfforaethol gydag adolygiadau AGIC o lywodraethu corfforaethol. Mae arweinwyr perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd yn rheolaidd â rheolwyr perthynas AGIC. Pan fydd pryderon arwyddocaol yn codi, cynhelir gwaith adolygu ar y cyd. |
| 39 | Dylai Llywodraeth Cymru, BILl, Ymddiriedolaethau, AGIC ac eraill:<br><br>• Gytuno ar system casglu data a gwybodaeth gyffredin, i'w defnyddio'n lleol, i gwmpasu'r GIG cyfan yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu y bydd BILl ac Ymddiriedolaethau yn cael gwybodaeth gadarn a haws ei deall; yn ogystal â data mwy hyddysg yn cael eu bwydo i amrywiol elfennau | Derbyniwyd o ran egwyddor | Mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru yn cyflwyno dull 'unwaith i Gymru' a fydd yn creu llwyfan cadarn ar gyfer safonau cyffredin a rhyngweithio rhwng systemau a mynediad at gofnodion electronig strwythuredig ym mhob lleoliad gofal i gydgysylltu a chyd-drefnu gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau, cleifion a |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | fframwaith gwybodaeth a rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru a gwybodaeth a ddarperir i AGIC. Bydd hefyd yn caniatáu cymharu perfformiad a lledaenu gwersi a ddysgwyd ledled Cymru.<br>• Dylai'r system casglu data leol gynnwys cyfres o ganlyniadau clinigol yn unol â gofynion archwilio cenedlaethol a fydd yn galluogi dinasyddion i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu'n lleol. | | gofalwyr. Bydd y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gwneud gwell defnydd o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i wella'r penderfyniadau a wneir, cynllunio newid mewn gwasanaeth ac ysgogi gwelliant mewn ansawdd a pherfformiad. |
| 40 | Dylai AGIC ddilysu a yw Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn dilyn meincnodau arfer gorau ac yn rheoli perfformiad gwasanaethau gofal iechyd i'r safonau uchaf posibl. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae adolygiadau AGIC yn defnyddio safonau sefydledig a gyhoeddwyd a'r arferion gorau wrth ddatblygu methodolegau ar gyfer arolygiadau safonol ac ar gyfer adolygiadau thematig. |
| 41 | Dylai AGIC ac AGGCC weithio gyda'i gilydd i ddatblygu fframwaith arolygu integredig i graffu ar berfformiad sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Y nod fyddai asesu ansawdd gofal integredig, ac a yw pobl yn cael gwasanaethau di-dor pan fyddant yn symud rhwng gofal sylfaenol, ysbytai a gofal cymdeithasol mewn lleoliadau cofrestredig. | Derbyniwyd a gweithredwyd | Mae AGIC ac AGGCC yn gweithio ar y cyd fesul thema wrth ddatblygu dulliau gweithredu sy'n briodol i'r pwnc.<br><br>Mae'r arolygiaethau'n cynnal gwaith ar y cyd ym maes y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac yn cyhoeddi adroddiad ar y cyd. Maent wedi gweithio gyda'i gilydd ar adolygiad ar y cyd o Wasanaethau Anabledd Dysgu. Mae AGIC hefyd yn cynnwys AGGCC yn ei Hadolygiadau o Ddynladdiad pan fydd hynny'n briodol. |

| Rhif | Argymhelliad Adolygiad Marks | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | | | Gall y posibilrwydd o integreiddio ymhellach gael ei archwilio yn sgil y Papur Gwyrdd ‘Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd’. |
| 42 | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried uno'r ddwy arolygiaeth. Yn ystod y blynyddoedd nesaf bydd y ffordd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei thrawsnewid. Gan y bydd y GIG yng Nghymru a llywodraeth leol yn cael eu had-drefnu, bydd patrymau darparu a chomisiynu gwasanaethau yn newid, ac ar ôl ymgyfarwyddo â'r drefn newydd efallai y gellid ymchwilio i uno'r ddwy arolygiaeth. Dylid cynnal dadansoddiad cost a budd trylwyr i asesu a yw uno yn briodol. | Yn cael ei ystyried | Mae’r materion hyn, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol, yn cael eu harchwilio yn sgil y Papur Gwyrdd ‘Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd’. |